


Estyn

Mehefin 2021

# Gwaith ymgysylltu

## Diweddariad ar y sector cynradd

Tymor yr haf 2021

## Cyflwyniad

Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi’r canfyddiadau o alwadau ffôn neu ymweliadau ymgysylltu a wnaed â 410 o ysgolion cynradd rhwng 22 Chwefror ac 14 Mai 2021. Mae’r adroddiad wedi’i seilio ar y wybodaeth a drafodwyd yn ystod cyfarfodydd ag arweinwyr ysgol, athrawon a disgyblion, a gynhaliwyd naill ai o bell neu wyneb yn wyneb. Y prif ffocws ar gyfer pob trafodaeth oedd lles, addysgu a dysgu, ac arweinyddiaeth. Mae cyfrannau’n ymwneud â’r sampl o ysgolion y cysylltom â nhw yn ystod y cyfnod adrodd hwn**.**

**Mae’r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.**

# Cynnwys


**Prif ganfyddiadau** **1**

Lles disgyblion, cymorth ar gyfer dysgwyr bregus a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol 3

Addysgu a dysgu 7

Arweinyddiaeth 11

Atodiad 15










## Prif ganfyddiadau

### Lles

1 Nododd bron pob un o'r arweinwyr fod y cyfnod clo yn ystod tymor y gwanwyn yn 2021 wedi bod yn gyfnod mwy heriol i ddysgwyr na'r cyfnod clo cychwynnol yn 2020. Dywedodd arweinwyr fod y cyfnod dysgu o bell diweddaraf wedi cael effaith fwy niweidiol ar les llawer o ddisgyblion.

2 Parhaodd bron pob un o'r ysgolion i ddarparu cyfleoedd i grwpiau, dosbarthiadau a'r ysgol gyfan gyfarfod gan ddefnyddio platfformau ar-lein i gefnogi lles disgyblion a chynnal ymdeimlad o gymuned ysgol.

3 Yn yr un modd â thymor yr hydref, dywedodd yr holl arweinwyr fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus i fod yn ôl yn yr ysgol ar ôl i'r cyfnod clo ddod i ben. Dywedodd arweinwyr fod ychydig o ddisgyblion yn fwy pryderus na'r arfer.

4 Disgrifiodd llawer o arweinwyr ddirywiad yn ymddygiad lleiafrif o ddisgyblion wedi cyfnod byr yn ôl yn yr ysgol.

5 Sylwodd ychydig o arweinwyr fod dirywiad yn ffitrwydd corfforol lleiafrif o ddisgyblion.

### Addysgu a dysgu

6 Dywedodd llawer o arweinwyr fod eu staff yn rhoi pwyslais cynyddol ar sesiynau addysgu byw a chyfleoedd i ddisgyblion drafod eu dysgu gydag athrawon ar-lein.

7 Canfu arweinwyr fod ymateb yn hyblyg i anghenion teuluoedd a chynnwys cyswllt wyneb yn wyneb mwy rheolaidd ar-lein yn gwella lefelau ymgysylltiad disgyblion â'u dysgu yn sylweddol.

8 Pan ail agorwyd ysgolion, byddai staff yn aml yn addasu gweithgareddau i gynnwys tasgau byrrach a mwy ffocysedig i helpu disgyblion â'u dysgu.

9 Ar ôl cyfnod ymgyfarwyddo cychwynnol, dywedodd y rhan fwyaf o benaethiaid wrthym ni fod staff yn gwerthuso dysgu disgyblion trwy ddefnyddio ystod o ddulliau.

10 Wedi i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol, roedd y rhan fwyaf o staff yn ymdrechu i lynu at egwyddorion y cyfnod sylfaen o fewn y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â rheoli lledaeniad COVID-19.

11 Dywed arweinwyr eu bod wedi parhau i fuddsoddi amser ac adnoddau i ddatblygu gweithgareddau mewn ardaloedd dysgu yn yr awyr agored.

### Arweinyddiaeth

12 Dywed bron pob arweinydd eu bod yn parhau i roi blaenoriaeth uchel i gefnogi lles pob aelod o staff.

13 Mae’r pandemig yn parhau i effeithio ar les penaethiaid, ac mae hyn yn parhau i fod yn destun pryder.

14 Mae arweinwyr yn canmol gwydnwch parhaus y staff ac yn dweud eu bod wedi ymdopi’n dda â’r newidiadau gweithredol parhaus a fynnir ganddynt, yn cynnwys pan ail agorwyd ysgolion yn y gwanwyn.

15 Dywed bron pob arweinydd fod cyfathrebu rheolaidd a chlir rhwng yr ysgol a’r rhieni wedi bod yn hanfodol trwy gydol y pandemig.

16 Mae mwyafrif o arweinwyr yn teimlo y byddai eu hysgol yn elwa ar gyfnod estynedig, heb darfu, i weithio ymhellach ar ddatblygu eu dulliau cwricwlaidd.

17 Mynegodd lleiafrif o arweinwyr bryderon am barodrwydd yr ysgol i roi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg ar waith.

## Lles disgyblion, cymorth ar gyfer dysgwyr bregus a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

**Nododd bron pob arweinydd fod y cyfnod clo yn ystod tymor y gwanwyn yn 2021 wedi bod yn gyfnod mwy heriol i ddysgwyr na'r cyfnod clo cychwynnol yn 2020. Dywedodd arweinwyr fod y cyfnod dysgu o bell diweddaraf wedi cael mwy o effaith niweidiol ar les llawer o ddisgyblion. Teimlai llawer ohonynt, yn gyffredinol, fod yr oriau byrrach o olau dydd, y tywydd garw a'r straen a deimlwyd gan oedolion o fewn yr aelwyd yn ychwanegu at yr heriau oedd yn wynebu disgyblion.**

Dywedodd bron pob un o'r arweinwyr eu bod wedi eu paratoi'n well ar gyfer cefnogi lles disgyblion o bell yn ystod y cyfnod clo diweddaraf.



Roedd llawer ohonynt wedi rhagweld cyfnod arall o gau ysgolion, ac wedi rhoi strategaethau ac adnoddau priodol ar waith i gefnogi lles disgyblion. Parhaodd ysgolion i drefnu bod aelodau staff wrth law i drafod unrhyw faterion neu bryderon a oedd gan ddisgyblion a rhieni. Hefyd, darparodd bron pob ysgol ddulliau amrywiol i ddisgyblion gysylltu â staff i rannu eu gofidiau a'u hofnau yn breifat. Defnyddiodd ychydig o ysgolion holiaduron i ddarganfod sut roedd disgyblion yn teimlo, ac addaswyd eu darpariaeth a'u cymorth yn unol â hynny. Er enghraifft, darparodd un ysgol hyfforddiant penodol i gynorthwywyr addysgu i gefnogi lles emosiynol disgyblion ar ôl dadansoddi adborth disgyblion.

Parhaodd bron pob un o'r ysgolion i ddarparu cyfleoedd i grwpiau, dosbarthiadau a'r ysgol gyfan gyfarfod gan ddefnyddio platfformau ar-lein i gefnogi lles disgyblion a chynnal ymdeimlad o gymuned ysgol.

**Cameo – cynnal sesiynau lles anffurfiol o bell**

Yn Ysgol Llanfairpwll, Ynys Môn, yn ogystal â'r ddarpariaeth academaidd, cynigiodd yr ysgol sesiynau 'paned a bisged' rhithwir i ddisgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn ystod y cyfnod clo yn y gwanwyn. Yn y sesiynau hyn, rhannwyd disgyblion yn grwpiau bach a rhoddwyd cyfle iddynt sgwrsio â'u ffrindiau o dan arweiniad athro i gefnogi eu lles emosiynol. Roedd pob sesiwn yn cynnwys cyfle i gael hwyl ar ffurf cwis neu gêm, a thrafod teimladau ac unrhyw bryderon. Roedd ffocws gwahanol i bob sesiwn, fel ymlacio'r meddwl, neu gymell disgyblion i ymgysylltu a chwblhau tasgau.

**Cameo – cyflwyno wythnos les**

Yn Ysgol Pencarnisiog, Ynys Môn, dywedodd y pennaeth fod y cymorth a ddarperir ar gyfer lles disgyblion a staff wedi bod yn gryfder yn ystod y pandemig.

Un elfen y dywedodd y pennaeth ei bod yn fuddiol i les disgyblion oedd 'amser seibiant' i ganolbwyntio ar wythnos o weithgareddau lles. Anogwyd disgyblion a'u rhieni i gymryd rhan mewn gweithgareddau anffurfiol i deuluoedd fel sesiynau ymarfer corff, gwaith celf, cerddoriaeth, neu fynd am dro yng nghefn gwlad. Roedd y dull hwn yn cyd-fynd ag adegau pan oedd achosion COVID-19 yn yr awdurdod lleol yn uchel.

Yn yr un modd ag yn y cyfnod clo cychwynnol, cynhaliodd ysgolion ddarpariaeth hyb ar gyfer plant gweithwyr allweddol a disgyblion bregus. Nododd athrawon yn gynyddol fod mwy o ddisgyblion yn fregus neu angen cymorth ychwanegol o ganlyniad i amgylchiadau teuluol heriol wrth i'r cyfnod clo fynd rhagddo. Gwahoddodd llawer o ysgolion y disgyblion hyn i'r ddarpariaeth hyb.

Trwy gydol y cyfnod clo diweddaraf, parhaodd staff i gefnogi disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY), naill ai gartref trwy ddysgu ar-lein, neu wyneb yn wyneb yn y ddarpariaeth hyb. Mewn lleiafrif o ysgolion, dywed arweinwyr fod llawer o ddisgyblion ag ADY yn parhau i wynebu heriau wrth ymgysylltu â gweithgareddau dysgu o bell. I ymateb i hynny, roedd ysgolion yn aml

yn darparu sesiynau ffocws mewn grwpiau bach dan arweiniad athrawon neu gynorthwyydd addysgu i ddiwallu eu hanghenion.

Pan ddychwelodd disgyblion i ysgolion yn dilyn y cyfnod clo diweddaraf, parhaodd bron pob un o’r staff i roi blaenoriaeth uchel i gefnogi lles disgyblion.  Yn yr un modd ag yn nhymor yr hydref, dywedodd bron pob arweinydd fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus i fod yn ôl yn yr ysgol ar ôl i’r cyfnod clo ddod i ben.  Dywedodd arweinwyr fod ychydig o ddisgyblion yn fwy pryderus na’r arfer.  Er enghraifft, dywedont fod y disgyblion hyn yn aml yn dangos gorbryder ynghylch digwyddiadau ac amgylchiadau gartref, tra fod gan ddisgyblion eraill bryderon ynghylch gwaith ysgol neu ailgychwyn cyfeillgarwch.  Parhaodd ysgolion i ddarparu cyfleoedd amrywiol i ddisgyblion rannu a thrafod eu gofidiau gyda staff neu gweithiont gydag asiantaethau allanol i gefnogi’r disgyblion hyn.

**Cameo – gweithio gydag asiantaethau allanol i gefnogi lles disgyblion**

Gweithiodd awdurdod lleol Sir Ddinbych yn agos â Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed (CAMHS) y bwrdd iechyd i gynllunio ar gyfer disgyblion yn dychwelyd i’r ysgol, a rhannwyd arweiniad â staff ysgol.  Seiliwyd hyn ar system fatrics 'goleuadau traffig', a chyfeiriwyd y pryderon ‘coch’ at y tîm iechyd meddwl ar unwaith.  Neilltuodd y bwrdd iechyd aelod o dîm CAMHS i bob clwstwr ysgol.  Roedd hyn yn golygu bod Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol ysgolion yn cael y wybodaeth oedd ei hangen arnynt i gefnogi disgyblion, fel y rhai a oedd yn teimlo’n bryderus ynglŷn â dychwelyd i’r ysgol.

Disgrifiodd llawer o arweinwyr ddirywiad yn ymddygiad lleiafrif o ddisgyblion ar ôl cyfnod byr yn ôl yn yr ysgol.  Dywed athrawon fod rhychwantau canolbwyntio disgyblion yn fyrrach, ac nad oedd rhai ohonynt mor barchus a goddefgar o’i gilydd, tra roedd disgyblion eraill yn dechrau cweryla’n gyflymach amser egwyl.  Hefyd, mae ychydig o arweinwyr yn teimlo bod achosion o ddisgyblion yn anghytuno â’i gilydd ar-lein yn cynyddu.  Mae llawer o ysgolion wedi parhau i roi pwyslais cryf ar strategaethau fel amser cylch i drafod ffyrdd o ddatrys digwyddiadau o anghytuno.

Dywed y rhan fwyaf o benaethiaid fod llawer o ddisgyblion Blwyddyn 6 wedi teimlo eu bod wedi cael eu heffeithio’n fawr gan y cyfnodau clo.  Maent wedi methu’r arferion sefydledig ar ddiwedd yr ysgol gynradd, fel digwyddiadau pontio a chyrsiau preswyl, er gwaethaf ymdrechion gorau staff i ail-greu profiadau o bell.  Mae arweinwyr yn bryderus am gau llawer o ganolfannau addysg awyr agored o ganlyniad i COVID-19.

**Cameo – ail-greu'r profiad preswyl gartref**

Roedd disgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn Ysgol Gynradd Craigfelen, Abertawe, yn siomedig eu bod yn methu eu hwythnos breswyl arferol mewn canolfan addysg awyr agored.  I ymateb i hynny, yn ystod y cyfnod clo diweddar, trefnodd staff wythnos breswyl rithwir a gosod heriau dyddiol i ddisgyblion gymryd rhan ynddynt gartref.  Er enghraifft, gyda goruchwyliaeth addas, bu disgyblion yn adeiladu cuddfannau ac yn tostio malws melys.

Arddangosodd hyfforddwr o'r ganolfan addysg syniadau ymarferol iddynt trwy gyswllt fideo i annog disgyblion a'u teuluoedd i gymryd rhan.  Cyfarfu disgyblion ac athrawon ar-lein bob dydd ar gyfer brecwast a phryd nos i gofnodi rhai o weithgareddau cymdeithasol pwysig wythnos breswyl.

Yn ogystal â lles meddyliol ac emosiynol disgyblion, sylwodd ychydig o arweinwyr ar ddirywiad yn ffitrwydd corfforol lleiafrif o ddisgyblion am iddyn nhw beidio â bod yn actif am gyfnodau hir yn ystod misoedd y gaeaf.  I ymateb i hynny, cyflwynodd yr ysgolion hyn weithgareddau i wella ffitrwydd corfforol a lles cyffredinol disgyblion. Mae athrawon wedi gwneud defnydd gwell o ardaloedd awyr agored i ddisgyblion o bob oedran gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol i'w hannog i fyw bywyd iachach.

Dywedodd tua hanner yr arweinwyr y bu cynnydd yn nifer y disgyblion oedd angen cymorth ychwanegol wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgol.  Roedd hyn yn cynnwys anogaeth i weithio ar safleoedd ysgol, a chymorth gan wasanaethau arbenigol fel seicolegwyr addysg a therapyddion lleferydd ac iaith.  Darparwyd cymorth naill ai o bell neu drwy ymweld ag ysgolion, yn dibynnu ar asesiadau risg.  Dywedodd lleiafrif o arweinwyr y bu cynnydd mewn atgyfeiriadau diogelu, yn enwedig ynghylch lles ac iechyd meddwl disgyblion.  Dywedodd arweinwyr fod asiantaethau sy'n diogelu lles disgyblion yn parhau i ddarparu cymorth gwerthfawr.  Er enghraifft, cynhaliodd gweithwyr cymdeithasol gyfarfodydd o bell, gan ymweld ag ysgolion, pan oedd hynny'n briodol.

# Addysgu a dysgu

**Yn ystod y cyfnod clo diweddaraf yn nhymor y gwanwyn, parhaodd arweinwyr i fireinio dulliau dysgu o bell eu hysgol.  Dywedodd llawer ohonynt fod eu staff yn rhoi pwyslais cynyddol ar sesiynau addysgu byw a chyfleoedd i ddisgyblion drafod eu dysgu ag athrawon ar-lein.**

Er enghraifft, cynhaliodd athrawon wiriad dyddiol mewn sesiynau gyda disgyblion i fyfyrio ar eu dysgu blaenorol a mynd i'r afael â  chamsyniadau.  Pan roedd teuluoedd yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu yn y sesiynau byw hyn, parhaodd ysgolion i ddarparu ystod o adnoddau dysgu y gallai rhieni eu defnyddio pan oedd yn briodol i'w hamgylchiadau personol.  Canfu arweinwyr fod ymateb yn hyblyg i anghenion teuluoedd a chynnwys cyswllt wyneb yn wyneb mwy rheolaidd ar-lein yn gwella lefelau ymgysylltiad disgyblion â'u dysgu yn sylweddol.



Dywedodd mwyafrif yr arweinwyr fod cydweithio gwell rhwng staff mewn ysgolion ac ar draws clystyrau i rannu, gwerthuso a mireinio dulliau dysgu ar-lein. Er enghraifft, datblygodd llawer o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol blatfformau ar-lein i gynnwys staff mewn rhannu eu harfer.

Nododd llawer o arweinwyr fod ychydig o rieni wedi elwa ar arweiniad ychwanegol am sut i gefnogi dysgu eu plant. Er enghraifft, creodd staff fideos tiwtorial ar addysgu ffoneg, ac mewn ychydig o achosion, trefnwyd cymorthfeydd ar-lein gyda rhieni unigol i drafod dulliau y gallent eu defnyddio i gefnogi eu plant gartref.

**Cameo – anfon llythyrau trwy'r post i ymgysylltu â disgyblion**

Yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Cleiro, Powys, roedd staff yn awyddus i ysbrydoli disgyblion i weithio mewn amrywiaeth o ffyrdd, yn ogystal ag yn ddigidol. Mae disgyblion yn gyfarwydd â Maisie, ci'r pennaeth. 'Postiodd' Maisie lythyr personol at bob disgybl yn dweud wrthynt am ei hanturiaethau yn ystod y cyfnod clo. Roedd y llythyr hwn a oedd yn rhan o thema addysg grefyddol yn annog disgyblion i feddwl am ryfeddodau creadigaeth. Ysbrydolwyd disgyblion i ymateb mewn amrywiaeth o ffyrdd, yn cynnwys trwy lythyr, ysgrifennu dyddiaduron natur, neu drwy anfon blodau wedi'u gwasgu a ffotograffau.

Pan ail agorwyd ysgolion, roedd staff yn aml yn addasu gweithgareddau i gynnwys tasgau byrrach a mwy ffocysedig i helpu disgyblion â'u dysgu. Helpodd hyn i gefnogi disgyblion i ganolbwyntio, gwrando ar ddisgyblion eraill a chydweithio. Ymgorfforodd y rhan fwyaf o ysgolion gyfleoedd dysgu ychwanegol yn yr awyr agored, er enghraifft trwy archwilio a rhyngweithio â'u hamgylcheddau naturiol lleol.

Ar ôl cyfnod ymgyfarwyddo cychwynnol, dywedodd y rhan fwyaf o benaethiaid wrthym fod staff yn gwerthuso dysgu disgyblion trwy ddefnyddio ystod o ddulliau. Dywedodd ychydig o arweinwyr eu bod yn rhoi llai o bwyslais ar systemau asesu ac olrhain a oedd wedi'u sefydlu'n dda yn y gorffennol o blaid crebwyll proffesiynol athrawon i nodi'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion.

Dywedodd arweinwyr wrthym ni mai disgyblion a oedd wedi ymgysylltu'n effeithiol â dysgu o bell neu wedi mynychu darpariaeth hyb yn aml oedd yn gwneud y cynnydd gorau. Fodd bynnag, nododd bron pob ysgol grwpiau o ddisgyblion yr oedd eu medrau darllen, ysgrifennu, neu rifedd wedi llithro'n ôl. Nododd llawer o benaethiaid fod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar fedrau gwrando a siarad disgyblion, yn enwedig yn y cyfnod sylfaen.

**Cameo – cefnogi darllen gartref**

Yn ystod y cyfnod clo diweddaraf, cofnododd athrawon yn Ysgol Fabanod Y Parc, Sir Ddinbych fideos amser stori bob dydd, a stori amser gwely ar ddydd Gwener. Helpodd hyn i wella ymgysylltiad teuluoedd â darllen gartref. O ganlyniad, penderfynodd athrawon barhau i gofnodi storïau amser gwely a chynnwys naratif i rieni eu helpu i ddatblygu medrau gwrando a siarad eu plant. Er enghraifft, caiff rhieni eu hysgogi i siarad am gymeriadau a pham y gwnaethon nhw ymddwyn mewn ffordd benodol.

Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, dywedodd llawer o arweinwyr fod medrau Cymraeg disgyblion wedi dirywio'n sylweddol dros y cyfnodau clo, yn enwedig ar gyfer y rhai nad oeddent yn defnyddio'r iaith yn rheolaidd gartref. O ganlyniad, cyflwynodd athrawon weithgareddau ychwanegol a oedd yn trochi disgyblion yn yr iaith ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt wella eu medrau llafaredd. Er enghraifft, mewn un ysgol, cynlluniodd athrawon y cyfnod sylfaen weithgareddau a oedd yn gyfoethog o ran iaith a llythrennedd, yn seiliedig ar weithdy amgueddfa rhithwir i gefnogi defnydd disgyblion o eirfa Gymraeg a phatrymau brawddeg.

**Cameo – ymestyn darpariaeth Gymraeg mewn partneriaeth â rhieni**

Yn ystod cyfnodau clo, mae rhieni yn Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad, Caerdydd wedi bod yn allweddol yn cefnogi staff i ddatblygu medrau darllen disgyblion. Maent wedi helpu sicrhau bod disgyblion yn parhau i glywed a siarad Cymraeg yn eu cymuned ddysgu amlddiwylliannol ac amlieithog. Mae rhieni'n trefnu sesiynau o'u gwirfodd i siarad â disgyblion nad ydynt yn siarad rhyw lawer o Gymraeg gartref, os o gwbl, a darllen gyda nhw gan ddefnyddio platfformau o bell. Ers dychwelyd i'r ysgol, mae rhieni wedi parhau i gefnogi ei gilydd i roi cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio ac atgyfnerthu'r Gymraeg mewn amgylchedd mwy anffurfiol.

Cynigiodd ychydig o arweinwyr, y mae gan eu hysgolion niferoedd sylweddol o ddisgyblion sydd â Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, gymorth ychwanegol i'r disgyblion hyn a'u teuluoedd. Er enghraifft, fe wnaethant annog caffael iaith yn gyflym trwy ddosbarthiadau trochi ar-lein yn eu hiaith newydd.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn teimlo bod medrau digidol disgyblion wedi parhau i wella mewn ychydig o feysydd, fel cyfathrebu a chyflwyno. Dywedodd ychydig iawn o arweinwyr eu bod wedi manteisio ar y cyfle i ddatblygu ystod fwy amrywiol o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Er enghraifft, mewn un ysgol, defnyddiodd disgyblion feddalwedd i ddylunio mosg rhithwir fel rhan o'u dathliad o Ramadan ac Eid.

Dywedodd bron pob un o'r arweinwyr wrthym fod cymhwysedd staff i gyflwyno dysgu o bell wedi parhau i wella'n sylweddol trwy gydol y cyfnod clo diweddaraf. Dywedodd llawer o arweinwyr eu bod wedi addasu eu cwricwlwm i annog disgyblion i barhau i ymgysylltu â dysgu. Er enghraifft, darparont ystod o weithgareddau ymarferol i ddisgyblion, fel paratoi ryseitiau neu ddatblygu perfformiad dawns.

Yn aml, addasodd ysgolion y ddarpariaeth i gefnogi grwpiau penodol o ddysgwyr. Er enghraifft, addasodd ychydig o ysgolion sy'n gweithio'n agos â'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr eu darpariaeth dysgu o bell i ystyried eu diwylliant. Yn aml, gweithiodd arweinwyr gyda swyddogion cyswllt yr awdurdod lleol i ddarparu pecynnau gwaith teilwredig ar gyfer disgyblion.

Wrth i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol, parhaodd bron pob un o'r arweinwyr a'r staff i addasu eu dulliau i ymgorffori meysydd dysgu a phrofiad (MDPh) y Cwricwlwm i Gymru. Disgrifiodd llawer o arweinwyr y modd yr oeddent yn rhoi pwyslais ar y maes dysgu a phrofiad iechyd a lles i gefnogi iechyd meddwl ac iechyd corfforol disgyblion. Er enghraifft, darparont weithgareddau datrys problemau yn yr awyr

agored ar gyfer disgyblion a sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd rheolaidd i wneud ymarfer corff.  Dywed llawer o arweinwyr fod athrawon yn rhoi pwyslais cynyddol ar safbwyntiau a diddordebau disgyblion wrth gynllunio a chyflwyno gweithgareddau.

Ar ddechrau tymor y gwanwyn, parhaodd athrawon a staff cymorth y cyfnod sylfaen i ddarparu gweithgareddau dysgu o bell a oedd yn canolbwyntio’n bennaf ar ddatblygu medrau disgyblion trwy weithgareddau ymarferol a chreadigol.  Ar y cyfan, dywedodd arweinwyr fod arferion y cyfnod sylfaen yn fwy heriol i’w cyflwyno o bell gan fod rhai gweithgareddau’n rhy ddibynnol ar gymorth gan rieni.

Wedi i ddisgyblion ddychwelyd i’r ysgol, ymdrechodd y rhan fwyaf o’r staff i lynu at egwyddorion y cyfnod sylfaen o fewn y cyfyngiadau sy’n gysylltiedig â rheoli lledaeniad COVID-19.  Parhaodd staff i ddilyn asesiadau risg i’w cadw nhw eu hunain a disgyblion yn ddiogel, er enghraifft trwy sicrhau mesurau glanhau a diogelwch ychwanegol.  Roedd heriau’n cynnwys lleihau amser addysgu a chyfleoedd cyfyngedig ar gyfer cydweithio rhwng disgyblion a staff.  Dywed arweinwyr fod staff yn cefnogi disgyblion trwy gyfleoedd ychwanegol yn seiliedig ar chwarae i’w hannog i fod yn fwy hyderus yn eu dysgu.  Teimlai llawer o athrawon fod disgyblion wedi gwneud cynnydd cyfyngedig yn natblygiad eu medrau echddygol bras a manwl, a rhoesant fwy o bwyslais ar weithgareddau i ddatblygu’r medrau hyn, fel darparu mynediad iddynt at offer dringo ac adnoddau creu marciau.

Fel y soniwyd yn ein ‘Gwaith ymgysylltu: Diweddariad am y sector cynradd’ yn Hydref 2020 a Gwanwyn 2021, dywedodd arweinwyr eu bod wedi parhau i fuddsoddi amser ac adnoddau yn datblygu gweithgareddau mewn ardaloedd dysgu yn yr awyr agored ar gyfer yr holl ddisgyblion.  Er enghraifft, mewn un ysgol, sefydlodd athrawon ‘bentref dysgu’ yn yr awyr agored, ac mewn ysgol arall, cynhaliwyd digwyddiad bach y Gemau Olympaidd.

## Arweinyddiaeth

**Dywed bron pob arweinydd eu bod yn parhau i roi blaenoriaeth uchel i gefnogi lles pob aelod o staff. Dywedant, er bod llawer o aelodau eu staff wedi ymlâdd yn gorfforol ac yn feddyliol, mae morâl wedi gwella ers i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol.**

Maent yn canmol gwydnwch parhaus y staff ac yn dweud bod y rhan fwyaf ohonynt wedi ymdopi'n dda â'r newidiadau gweithredol cyson a fynnwyd ganddynt, yn cynnwys pan ailagorwyd ysgolion yn y gwanwyn.  Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn dangos bod gwaith tîm gwell ymhlith staff ar adeg pan mae llawer ohonynt wedi teimlo'n fwy ynysig.  Er enghraifft, mewn un ysgol ffederal, dywedodd y pennaeth fod staff ar bob safle wedi uno'n gyflym ac wedi gweithio gyda'i gilydd o bell i gynllunio, rhannu syniadau a chreu profiadau dysgu cyffredin ar gyfer disgyblion.



Mae'r pandemig yn parhau i effeithio ar les penaethiaid, ac mae hyn yn parhau i fod yn destun pryder.  Maent yn esbonio mai cadw staff a disgyblion yn ddiogel fu'r her fwyaf iddyn nhw.  Mae llawer ohonynt yn teimlo'n gyfrifol am ofalu am les cymuned yr ysgol gyfan, yn enwedig mewn ardaloedd ag amddifadedd uchel.  Er enghraifft, mae arweinwyr a staff yn darparu cymorth cymdeithasol ac emosiynol i deuluoedd bregus, fel cynnig arweiniad ar gael mynediad at wasanaethau arbenigol a gweithredu banciau bwyd.  Parhaodd y rhan fwyaf o arweinwyr i weld cymorth cydweithwyr trwy eu clystyrau lleol yn hynod fuddiol, ac maent yn gwerthfawrogi'r cymorth a gawsant gan eu cyrff llywodraethol, swyddogion yr awdurdod lleol a phartneriaid gwella'r consortiwm rhanbarthol.

Dywed bron pob arweinydd fod cyfathrebu rheolaidd a chlir rhwng yr ysgol a rhieni wedi bod yn hanfodol trwy gydol y pandemig.  Mae rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni yn rheolaidd ac mewn amrywiol ffyrdd wedi bod yn agwedd bwysig ar eu gwaith.  Dywed y rhan fwyaf o arweinwyr fod ffyrdd newydd o gyfathrebu â rhieni wedi gwella perthnasoedd gweithio rhwng yr ysgol a'r cartref.  Mae hyn wedi cynorthwyo staff i nodi materion a phryderon yn gyflym, a chynnig cymorth amserol iddynt.

Yn ystod y pandemig, mae rhieni wedi bod yn fwy tueddol o gyfathrebu â staff i rannu pryderon a heriau.  Fodd bynnag, er bod llawer o arweinwyr yn dweud bod manteision i hyn, mae hefyd wedi creu disgwyliadau uwch gan rieni o argaeledd staff.  O ganlyniad, mae ychydig o arweinwyr wedi sefydlu protocolau, fel darparu 'oriau cyswllt' ar gyfer rhieni pan allai fod yn rhesymol iddynt ddisgwyl ymateb gan staff yr ysgol.

Mae llawer o arweinwyr yn parhau â'u gwaith paratoi ar gyfer rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith o fis Medi 2022.  Maent yn wynebu heriau o ran gwerthuso dulliau newydd a gyrru diwygio'r cwricwlwm yn ei flaen.  Er enghraifft, dywed arweinwyr y gall fod yn anos ysbrydoli newid wrth annerch staff trwy gyfarfodydd o bell.  Yn ychwanegol, pan fydd athrawon yn arbrofi â gwahanol ddulliau, mae'n heriol mesur yr effaith ar ddysgu o ganlyniad i gyfyngiadau gweithredol.  O ganlyniad i'r pwysau ychwanegol a ysgogwyd gan y pandemig, mae mwyafrif o arweinwyr yn teimlo y byddai eu hysgol yn elwa ar gyfnod estynedig, heb unrhyw darfu, i weithio ymhellach ar eu dulliau cwricwlaidd.

Dywedodd llawer o arweinwyr fod angen iddynt adnewyddu trafodaethau proffesiynol am y Cwricwlwm i Gymru.  Mae ychydig ohonynt wedi defnyddio dogfen ganllawiau Llywodraeth Cymru, '[Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022](https://llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru-y-daith-i-2022)' i hwyluso sgyrsiau o'r fath.

Mynegodd ychydig o arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer cwricwlwm eu hysgol.  Er enghraifft, disgrifiodd un arweinydd gwricwlwm yn seiliedig ar y gymuned leol sy'n cysylltu'r cenedlaethau i yrru dyheadau.  Disgrifiodd arweinydd arall gwricwlwm lle mae'r cwestiwn allweddol 'beth mae byw yn Sir Benfro yn ei olygu?' yn ganolog iddo.  Mae rhai elfennau pwysig sy'n berthnasol i'r Cwricwlwm i Gymru wedi esblygu i fod yn flaenoriaethau naturiol yn ystod y flwyddyn.  Er enghraifft, canolbwyntiodd llawer o ysgolion ar greu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu neu ddatblygu technegau asesu ffurfiannol newydd.  Fodd bynnag, byddai llawer o arweinwyr yn croesawu rhagor o arweiniad ar agweddau penodol fel dehongli'r camau dilyniant a disgwyliadau ynghylch asesu crynodol.  Mae arweinwyr yn ceisio sicrwydd na fydd disgwyl i

ysgolion gwblhau cynllunio eu cwricwlwm erbyn mis Medi 2022, a bod diwygio'r cwricwlwm yn broses sy'n esblygu a fydd yn parhau i gael ei mireinio dros gyfnod.

Dywedodd llawer o arweinwyr wrthym fod ymgysylltiad staff â chyfleoedd dysgu proffesiynol wedi bod yn fuddiol o ran cryfhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wahanol ddulliau addysgu a dysgu. Esboniodd ychydig o arweinwyr eu bod wedi cyflwyno tasgau darllen neu ymchwil ar gyfer staff i'w hannog i addasu cyd-destun eu hystafell ddosbarth eu hunain. Ers i ddisgyblion ddychwelyd yn nhymor yr haf, mae staff mewn llawer o ysgolion wedi cyflwyno a gwerthuso sesiynau dysgu proffesiynol newydd yn eu gweithgareddau, gyda mwy o ffocws ar ddiwygio'r cwricwlwm.

Esboniodd llawer o arweinwyr eu bod wedi teilwra dysgu proffesiynol tymor yr haf i weddu i'r amgylchiadau presennol. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi trefnu sesiynau hyfforddi ar ddysgu a chwarae yn yr awyr agored i ymgysylltu â'u disgyblion a thargedu eu lles wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgol.

**Cameo – dysgu proffesiynol**

Yn Ysgol Gynradd Pentrechwyth, Abertawe, mae'r pennaeth wedi creu llyfrgell ddysgu electronig ar gyfer staff i goladu nodiadau o ddigwyddiadau hyfforddi staff. Gosodwyd disgwyliadau hyfforddi clir iawn i staff yn gysylltiedig ag iechyd a diogelwch, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, a'r Cwricwlwm i Gymru. Hefyd, cawsant eu hannog i ymgymryd â chyfleoedd dysgu proffesiynol yn ymwneud yn benodol â'u hanghenion proffesiynol a'u diddordebau personol eu hunain.

Mae arweinwyr yn gofyn i staff gofnodi'r negeseuon allweddol a'r pwyntiau dysgu o'r hyfforddiant ar broffil un dudalen i sicrhau bod pob un o'r staff yn elwa ar brofiadau hyfforddi pobl eraill. Wedyn, caiff hyn ei roi yn y llyfrgell ddysgu electronig ar gyfer staff. Ceir tudalen gynnwys sy'n sicrhau bod staff yn gwybod pa hyfforddiant sydd wedi digwydd a beth allant elwa arno mewn perthynas â'u dysgu proffesiynol eu hunain. Mae'r dull hwn yn cefnogi datblygiad yr ysgol fel sefydliad dysgu.

**Cameo – dechrau sgyrsiau am ddysgu proffesiynol**

Sefydlodd arweinydd canol yn Ysgol Gynradd Llandrillo yn Rhos, grŵp sgwrsio dysgu proffesiynol fel y gallai cydweithwyr gadw mewn cysylltiad pan gaewyd yr ysgol. Yn negeseuon y grŵp, rhannodd staff agweddau ar ddysgu proffesiynol ac adnoddau a oedd o ddiddordeb iddynt, fel cyfnodolion proffesiynol, podlediadau, neu glipiau fideo o arbenigwyr yn rhoi anerchiadau. Fe wnaethant adolygu'r ffynonellau hyn a thrafod goblygiadau i'w harferion, gan gyfeirio cydweithwyr at adnoddau perthnasol. Rhoddodd y dull hwn berchnogaeth i staff o'u dysgu proffesiynol eu hunain, a galluogodd iddynt ganolbwyntio ar agweddau a oedd yn bwysig iddynt, ac o ddiddordeb iddynt.

Mynegodd lleiafrif o arweinwyr bryderon am ba mor barod oedd yr ysgol i roi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg ar waith. Er enghraifft, maent

yn poeni am y pwysau baich gwaith ar staff sy'n arwain ar yr agwedd hon, a goblygiadau ariannol rhyddhau Cydlynwyr ADY o ymrwymiadau addysgu i gyflawni eu rolau. Dywed llawer ohonynt fod eu Cydlynwyr ADY wedi derbyn hyfforddiant gwerthfawr, a disgrifiodd mwyafrif ohonynt y gwaith sy'n cael ei wneud gan staff yn ystod tymor yr haf i baratoi ar gyfer y Ddeddf. Er enghraifft, mae athrawon yn paratoi Cynlluniau Datblygu Unigol yn ôl yr angen. Mae ychydig ohonynt wedi elwa ar weithio'n agos ag ysgolion eraill yn eu clwstwr i sicrhau dull cyson.

Mae arweinwyr yn parhau i ddefnyddio cyllid ychwanegol fel y cyllid a ddarperir gan 'Recriwtio, adfer, a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam' Llywodraeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn parhau i ddefnyddio'r cyllid ychwanegol i gynyddu lefelau staffio a'u gallu i gefnogi disgyblion. Mae hyn yn cynnwys darparu sesiynau ymyrraeth ar gyfer disgyblion sy'n targedu medrau llythrennedd a rhifedd neu gael mwy o staff wrth law i gynorthwyo disgyblion â'u tasgau dyddiol. Mae llawer o arweinwyr yn defnyddio cyllid ychwanegol i gefnogi anghenion lles disgyblion bregus. Er enghraifft, mae ychydig o ysgolion wedi creu rolau bugeiliol fel gweithwyr cyswllt â theuluoedd neu wedi sefydlu grwpiau anogaeth i gefnogi anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Hefyd, dywed llawer o arweinwyr eu bod wedi prynu adnoddau awyr agored ychwanegol gyda'r cyllid hwn i annog a hyrwyddo dysgu yn yr awyr agored.

**Cameo – cyflwyno rôl 'swyddog cyswllt â theuluoedd'**

Defnyddiodd y pennaeth yn Ysgol Gynradd Waunceirch, Castell-nedd Port Talbot y cyllid 'recriwtio, adfer a chodi safonau' i gyflogi swyddog cyswllt â theuluoedd. Mae'r swyddog yn cefnogi disgyblion bregus a'u teuluoedd trwy alwadau ffôn, platfformau ar-lein neu drwy gasglu disgyblion o'u cartrefi i fynychu'r ysgol. Mae'r swyddog wedi meithrin perthnasoedd cryf â disgyblion a'u rhieni, ac mae hefyd yn eu cefnogi a'u harwain mewn materion academaidd a materion o ddydd i ddydd. Maent yn sicrhau bod pob teulu yn gallu cymryd rhan yn llawn ym mhob agwedd ar fywyd ysgol a manteisio ar gymorth sydd ar gael gan asiantaethau allanol.

## Atodiad

| Consortiwm | Awdurdod lleol | Ysgolion |
|---|---|---|
| CCD | Pen-y-bont ar Ogwr | 14 |
| | Bro Morgannwg | 17 |
| | Rhondda Cynon Taf | 25 |
| | Merthyr Tudful | 7 |
| | Caerdydd | 39 |
| | Cyfanswm CCD | 102 |
| GCA | Caerffili | 30 |
| | Blaenau Gwent | 9 |
| | Torfaen | 7 |
| | Sir Fynwy | 12 |
| | Casnewydd | 16 |
| | Cyfanswm GCA | 74 |
| ERW | Powys | 30 |
| | Ceredigion | 15 |
| | Sir Benfro | 11 |
| | Sir Gaerfyrddin | 29 |
| | Abertawe | 29 |
| | Cyfanswm ERW | 114 |
| GwE | Ynys Môn | 10 |
| | Gwynedd | 22 |
| | Conwy | 12 |
| | Sir Ddinbych | 14 |
| | Sir y Fflint | 22 |
| | Wrecsam | 19 |
| | Cyfanswm GwE | 99 |
| | Castell-nedd Port Talbot | 21 |
| | Cyfanswm Castell-nedd Port Talbot | 21 |
| **Yr holl ddarparwyr cynradd** | | 410 |
| | | |
| **Meincnod prydau ysgol am ddim (PYDd am 3 blynedd, 2018-2020)** | | |
| Hyd at, ac yn cynnwys, 8% | | 87 |
| Dros 8% a hyd at, ac yn cynnwys, 16% | | 104 |
| Dros 16% a hyd at, ac yn cynnwys, 24% | | 79 |
| Dros 24% a hyd at, ac yn cynnwys, 32% | | 64 |
| Dros 32% | | 71 |
| Gwybodaeth ddim ar gael | | 5 |
| Cyfanswm | | 410 |